# Strategaeth Tlodi Plant

## 2012 Symud ymlaen

Commisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

**Mae cyfres o gyfreithiau, yn cynnwys Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, sy'n esbonio rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd.**

Rydyn ni eisiau gweld Cymru fel gwlad lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi, yn cael gwrandawiad, ac yn cael eu cefnogi i fyw bywydau diogel a hapus. Mae tîm o bobl yn gweithio gyda Keith Towler – yn Abertawe a Bae Colwyn – i'w helpu i wneud y canlynol:

— **cefnogi** plant a phobl ifanc i gael gwybod am hawliau plant

— **gwrando** ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw

— **cynghori** plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu mynd â'u problemau at neb arall

— **dylanwadu** ar y llywodraeth a chyrff eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan wneud yn siŵr eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc

— **codi llais** dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr i blant Cymru.

**Gallwch gael hyd i gopïau o'n holl adroddiadau a'u lawrlwytho ar ein gwefan:** www.complantcymru.org.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy ffonio 01792 765600 neu ebostio post@complantcymru.org.uk

Cyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, 2012

Dylunio gan elfen.co.uk



04 Rhagair gan Keith Towler

06 Tlodi plant

08 Mynd i'r afael â threchu tlodi plant yn seiliedig ar hawliau

12 Ymweliadau ag Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf 2012

14 Llysgenhadon Cymunedol

16 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

18 Polisi Cyflogaeth

20 Saith nod craidd Llywodraeth Cymru

46 Tri ymrwymiad allweddol Comisiynydd Plant Cymru ynghylch tlodi plant

48 Gwybodaeth Pellach

50 Troednodiadau


# Rhagair

Bu tlodi plant yn fater o bryder cyson i fy swyddfa ers ei sefydlu yn 2001. Gosododd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant sy'n hoelio sylw ar y modd y mae polisïau'r Llywodraeth gyda'i gilydd yn cyfrannu tuag at dri amcan strategol: i) lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi di-waith; ii) gwella sgiliau rhieni/ gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel er mwyn iddynt sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda, a iii) lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau economaidd, iechyd ac addysg plant a theuluoedd trwy wella canlyniadau'r tlotaf. I gydnabod y rôl allweddol sy'n cael ei chwarae gan bartneriaid y Llywodraeth wrth fynd i'r afael â thlodi plant, roedd y mesur yn ei gwneud yn ofyniad statudol ar draws awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ystod o gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithredu tuag at y nod o ddileu tlodi plant.



Rwyf eisoes wedi lleisio fy mhryderon ynglŷn â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i integreiddio gweithredu ynghylch tlodi plant yn rhan o Gynllun trosfwaol ar gyfer Trechu Tlodi sy'n cynnwys plant ac oedolion. Mabwysiadodd Drafft Ymgynghori'r Cynllun Cyflawni ar Drechu Plant 2010 ymagwedd seiliedig ar hawliau plant o fewn fframwaith y 7 Nod Craidd. Gofynnais am sicrwydd na fyddai'r ymagwedd hon yn cael ei cholli yn y Cynllun Gweithredu newydd trosfwaol ar gyfer Trechu Tlodi. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ym mis Mehefin 2012 a'r hyn sy'n peri pryder penodol i mi yw colli fframwaith clir seiliedig ar hawliau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) trwy saith nod craidd Llywodraeth Cymru.

Er nad yw Comisiynydd Plant Cymru yn destun i'r ddyletswydd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, rwyf wedi penderfynu cyhoeddi fy strategaeth tlodi plant fy hun i egluro'r gwaith y mae fy swyddfa yn ymgymryd ag ef i gyfrannu tuag at drechu tlodi plant yng Nghymru. Nodwyd yr ymrwymiad hwn yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2011-2012. Fy mwriad yw diweddaru'r strategaeth tlodi plant yn flynyddol a nodi a hyrwyddo'n ymhellach enghreifftiau o arfer da ar draws Cymru.



# Tlodi plant

Yn draddodiadol ledled y DU ystyriwyd tlodi plant yn ganlyniad i dlodi teuluol yn sgil diffyg adnoddau economaidd. Y dull allweddol o fesur tlodi plant yn y DU yw mesur incwm cymharol; y diffiniad o dlodi plant yw canran y plant rhwng 0-17 oed sy'n byw mewn cartrefi a chanddynt incwm sy'n is na 60% o'r incwm canolrif cenedlaethol.



Yn ôl dadansoddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Sefydliad Joseph Rowntree yn 2012,[1] nid yw gostyngiad mewn tlodi plant cymharol yn 2010-11 yn adlewyrchu cynnydd yn incwm gwirioneddol teuluoedd incwm isel a chanddynt blant, ond yn hytrach mae'n cael ei yrru gan y gostyngiad mewn incwm canolrif, ac felly'r llinell dlodi gymharol. Mae Llywodraeth y DU yn ategu ei mesurau tlodi plant sy'n seiliedig ar incwm â mesur o 'amddifadedd sylweddol'; ystyrir bod plant yn byw mewn amddifadedd sylweddol os yw eu rhieni'n dweud na allant fforddio rhai eitemau penodol. Mae nifer y plant sy'n cael eu hamddifadu'n sylweddol wedi cynyddu ers ei man isaf yn 2006-07. Mae patrymau amddifadedd sylweddol ar draws gwahanol grwpiau o blant yn amrywio. Mae plant rhieni unigol, y rheini sy'n byw mewn teulu lle mae'r plentyn ieuengaf dan 5 mlwydd oed, y rheini sy'n byw mewn teulu lle mae rhywun yn anabl a'r rheini sy'n byw mewn llety wedi'i rentu'n breifat yn ymddangos yn gymharol 'dlotach' pan ddefnyddir mesur amddifadedd sylweddol yn hytrach na mesur tlodi incwm.

Cyhoeddwyd Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Llywodraeth ym mis Mai 2012.[2] Mae tystiolaeth yr adroddiad yn dangos, cyn cyfnod y dirwasgiad, bod canran y plant yng Nghymru a oedd yn byw mewn amddifadedd sylweddol ac incwm isel yn cyd-fynd yn fras â gweddill y DU. Fodd bynnag, awgryma data diweddaraf 2009-10 fod yr argyfwng ariannol – a'r dirwasgiad dilynol – wedi cael effaith anghymesur ar incwm a lefelau amddifadedd yng Nghymru.

# Mynd i'r afael â threchu tlodi plant yn seiliedig ar hawliau



Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol ar hawliau dynol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc dan 18 oed. Hwn yw'r arf hawliau dynol sydd wedi'i gadarnhau fwyaf yn y byd ac mae'n rhoi ystod eang o hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i blant a phobl ifanc y disgwylir i Bartïon Gwladwriaethau y Confensiwn eu rhoi ar waith. Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru CCUHP yn sail i'w holl bolisïau ar gyfer plant a phobl ifanc trwy'r 7 Nod Craidd. Pasiwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn 2011 gan Lywodraeth Cymru ac o fis Mai 2012 mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CCUHP wrth iddynt symud yr agenda cynllunio integredig yn ei flaen a'i adlewyrchu yn eu gweithrediadau deddfwriaeth a pholisi.

Mae tlodi plant yn ganlyniad i dlodi teuluol. Fodd bynnag mae'r ymagwedd tlodi plant at ddelio â'r mater yn wahanol i'r ymagwedd tlodi teuluol.[3] Mae'r ymagwedd tlodi plant yn gosod y plentyn wrth wraidd holl fesurau polisi ac mae'n cydnabod bod gan blentyn hawliau a hawliau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r teulu. Pan osodir hyn mewn cyd-destun hawliau plant, seiliedig ar CCUHP, mae hynodrwydd ymagwedd tlodi plant yn dod yn glir a dylai hyn yrru'r holl gynlluniau polisi i fynd i'r afael â thlodi plant.

Mae tlodi plant yng Nghymru yn broblem sylweddol ac mae'n ymddangos y bydd yn effeithio ar fywydau nifer gynyddol o blant a phobl ifanc. Bydd cyfleoedd plentyndod y plant a'r bobl ifanc hyn wedi'u cyfyngu, efallai y bydd eu gallu i gael mynediad i'w hawliau yn cael ei gyfyngu ac maent mewn perygl o ddod yn oedolion heb lawer o gyfleoedd i wireddu'u potensial, hyn oll oherwydd eu bod yn dod o gartrefi incwm isel.

— **Ni all Llywodraeth Cymru reoli'r lefelau treth ac incwm budd-daliadau a dderbynir gan gartrefi. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i blant a phobl ifanc Cymru - ymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.**

— **Ni ddylai'r graddau y gall plentyn neu berson ifanc wireddu'i hawliau a chyflawni ei botensial ddibynnu ar lefel incwm y cartref lle mae'n byw.**

— **Mae gan Lywodraeth Cymru y gallu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc – lle bynnag y mae'n byw neu faint bynnag o arian sy'n dod i mewn i'w gartref, yn cael mynediad i'w hawliau.**



Pan fo llywodraeth yn llofnodi'r Confensiwn (CCUHP), fe'i gelwir yn Barti Gwladwriaeth. Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn gyflwyno adroddiadau manwl bob 5 mlynedd i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mewn ymateb i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU yn 2008 yn niweddglo'r pedwerydd adroddiad cyfnodol (2003-08) nododd Llywodraeth Cymru 16 maes blaenoriaeth i weithredu yn eu cylch. Cyhoeddwyd y rhain ar ffurf Cynllun Gweithredu i Gymru 'Gwneud Pethau'n Iawn' 2008-2014. Trechu tlodi i blant a phobl ifanc oedd Blaenoriaeth rhif 1 y Cynllun Gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau adroddiad cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu. Mae'r Comisiynwyr Plant o bedair cenedl y Deyrnas Unedig yn cyflwyno adroddiad ar wahân i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Roedd tlodi plant yn faes sy'n peri pryder i'r Comisiynwyr ledled y pedair cenedl yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn 2008, a bydd yr angen parhaus i weithredu ar frys ynghylch y mater hwn yn cael ei ystyried yn adroddiad Comisiynwyr Plant y DU a fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod y rownd adrodd nesaf.

# Ymweliadau ag Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf 2012

Mae cwrdd â phlant a phobl ifanc a darganfod sut fywyd sydd ganddynt yn rhan hanfodol o swydd y Comisiynydd ac mae'n llywio'r gwaith sy'n cael ei flaenoriaethu gan ei swyddfa. Cyfrannodd y Comisiynydd Plant tuag at gynhyrchiad teledu gan y BBC a ddarlledwyd yn gynharach eleni a oedd yn canolbwyntio ar realiti bywyd i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Cafodd y profiad o fynd i gartrefi teuluoedd, cyfarfod â phlant, pobl ifanc a'u rhieni a chlywed am eu hanawsterau o ddydd i ddydd effaith fawr ar y Comisiynydd.

**"Cwrdd â phlant a phobl ifanc ledled Cymru yw un o agweddau mwyaf pleserus fy swydd, ac mae'n rhoi cyfle ardderchog i mi glywed gan blant am eu profiadau bob dydd a'r materion sy'n effeithio fwyaf arnyn nhw."**
**Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru**

Yn 2011 cynhaliodd y Comisiynydd raglen lwyddiannus o ymweliadau ag ysgolion ac yn sgil ei waith ar ddarllediad BBC Cymru, penderfynodd ymgymryd ag wythnos debyg o ymweliadau â phrosiectau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw Cymunedau'n Gyntaf sy'n canolbwyntio ar gymunedau ac sy'n cefnogi pobl dan yr anfantais fwyaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig er mwyn cyfrannu tuag at leddfu tlodi parhaus.

Amcanion yr ymweliadau oedd cyfarfod â phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a gwrando arnynt, gwrando ar yr oedolion sy'n rhoi cymorth iddynt ynglŷn â phroblemau sy'n wynebu'r cymunedau hyn a nodi unrhyw arfer da o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael ei gyflawni gan brosiectau mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Yn ogystal, ymwelodd y Comisiynydd â dwy ysgol gynradd sy'n ymgymryd â gwaith pwysig gyda theuluoedd difreintiedig iawn. Gwnaethpwyd argraff sylweddol ar y Comisiynydd gan frwdfrydedd ac ymrwymiad y prosiectau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r enghreifftiau o arfer a welodd y Comisiynydd yn cael eu defnyddio yn y strategaeth hon i dynnu sylw at waith cymunedol sy'n hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn tlodi. Ymwelodd taith 2012 â phrosiectau yn Ne a Gorllewin Cymru. Yn 2013 bydd y Comisiynydd yn ymgymryd â rhaglen debyg o ymweliadau yn ardaloedd eraill o Gymru.

# Llysgenhadon Cymunedol



Mae Comisiynydd Plant Cymru eisoes yn gweithredu cynllun llwyddiannus Llysgenhadon Ysgolion sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 130 o ysgolion cynradd yng Nghymru ac mae ar fin ehangu. Penderfynodd y Comisiynydd beilota raglen ar gyfer Llysgenhadon Cymunedol er mwyn cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac i lywio'r gwaith y mae'n ei wneud. Yr un fath â'r rhaglen Llysgenhadon Ysgolion sefydledig bydd disgwyl i blant a phobl ifanc sy'n dod yn Llysgenhadon Cymunedol wneud y canlynol:

1. **Dweud wrth eraill am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;**

2. **Dweud wrth eraill am Gomisiynydd Plant Cymru;**

3. **Bod yn lais i'r Comisiynydd ar lawr gwlad a dweud wrtho am y pethau cadarnhaol sy'n digwydd yn eu cymunedau er mwyn iddo eu rhannu ag eraill a dweud wrtho am unrhyw help y mae ei angen arnynt i wella pethau yn eu hardaloedd.**

Cynhelir y peilot ar draws nifer o gymunedau Cymunedau'n Gyntaf ac roedd yr ymweliadau'n fodd o wahodd cymunedau i gymryd rhan. Mae swyddfa'r Comisiynydd Plant yn darparu gweithdai hyfforddi a chymorth parhaus i'r ardaloedd peilot. Cefnogir y peilot hefyd gan Asiantaeth Ffilm Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Bydd y peilot yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2013.

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb



Mae Comisiynydd Plant Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011 ac mae ganddo Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n amlinellu'r modd y bydd yn cyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae'n amlwg bod gan y Comisiynydd Plant rôl bwysig i geisio sicrhau cyfle cyfartal i holl blant a phobl ifanc Cymru. Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EIA) yn fodd systematig o archwilio a yw swyddogaeth, polisi neu weithdrefn yn effeithio er gwaeth ar unrhyw unigolyn neu grŵp o bobl. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn ymgymryd â rhestr o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a bydd yr asesiadau hyn ar gael i'r cyhoedd. At ddibenion y ddyletswydd gydraddoldeb mae nifer o nodweddion a ddiogelir er enghraifft anabledd, rhyw a hil.

Fodd bynnag, wrth gyflawni'r rhestr o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o ran swyddogaethau, polisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Plant Cymru, penderfynwyd cynnwys ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn ffactor i'w asesu ar wahân er nad oes rheidrwydd i wneud hyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Golyga hyn, ym mhob dim a wnawn, dylem fod yn hyderus bod anghenion plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel wedi'u hystyried ac ein bod yn sicrhau nad oes yr un effaith negyddol arnynt a bod cyfle cyfartal yn cael ei ddatblygu.

# Polisi Cyflogaeth

Nod Comisiynydd Plant Cymru yw darparu cyflog, amodau gwaith ac amgylchedd gweithio i'w bobl mewn ffordd gyfrifol, gefnogol a chreadigol, gan wneud cyfraniad i'r gymdeithas fel cyflogwr moesegol ac ystyried effaith ein prosesau cyflogaeth ar deuluoedd a phlant o bob oed.

Er mwyn lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gwaith, ac a allai beri i rieni ar incwm isel beidio ag ystyried Comisiynydd Plant Cymru yn gyflogwr, byddwn yn:



- Cynllunio swyddi a gwasanaethau hyblyg, a fydd yn ein galluogi i ymateb i anghenion unigol ac amrywiol rhieni sy'n gweithio. Un enghraifft o hyn fyddai cyfleoedd i weithio gartref.
- Buddsoddi mewn unigolion er mwyn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi a chael cymwysterau newydd a fydd yn helpu i greu gweithlu medrus sy'n gallu gwneud gwaith cyffredinol a chamu mewn pan fo rhywun arall yn absennol mewn rhan arall o'r sefydliad.
- Hysbysebu ein swyddi mewn nifer o wahanol leoedd gan ddefnyddio dulliau amrywiol er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cymdeithasol-economaidd yn cael eu cymhwyso i'r broses recriwtio fel mater o drefn.
- Hyrwyddo set gynhwysfawr o bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cyflogaeth sy'n ein galluogi i fod yn effeithiol ac yn deg wrth ddelio â'n gweithwyr. Mae'r rhain yn bolisïau sydd, ar y cyfan, yn fwy na'r gofynion statudol a gofynion y farchnad, yn enwedig yng nghyswllt absenoldeb arbennig a hawliau mamolaeth.
- Hyrwyddo ein hymrwymiad sefydledig i gefnogi patrymau gwaith amrywiol, ceisiadau am oriau gwaith hyblyg a chynlluniau talebau gofal plant er mwyn dileu rhwystrau sy'n atal rhieni rhag gweithio.
- Sicrhau y bydd y cyflogau y byddwn yn eu talu i bawb sy'n gweithio i ni yn hafal neu'n fwy na'r swm sy'n cael ei gydnabod fel y 'cyflog byw' yn y Deyrnas Unedig (wedi'i gyfrifo'n £7.20 yr awr yn 2012).
- Cynnwys pobl ifanc yn y broses o gynllunio nifer o gyfleoedd wedi'u targedu ar gyfer profiad gwaith yn y dyfodol yn swyddfeydd Comisiynydd Plant Cymru, a chyfleoedd penodol ar gyfer pobl ifanc o gymunedau lle mae lefelau uchel o amddifadedd lluosog.
- Darparu cyfleoedd dysgu i'r holl staff, y gwirfoddolwyr ac aelodau'r pwyllgor archwilio er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o dlodi plant yng Nghymru a'i effaith ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwneud cynnydd wrth weithredu strategaeth tlodi plant Comisiynydd Plant Cymru a materion yn ymwneud â thlodi plant.

# Saith nod craidd Llywodraeth Cymru



## Nod 1: dechrau teg i fywyd

Rhaglen flaenllaw gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg sydd wedi'i dargedu at blant rhwng 0-3 oed yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu gofal plant rhan-amser o safon yn rhad ac am ddim i blant rhwng 2-3 oed; gwell gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd (lle mae llwyth gwaith Ymwelydd Iechyd wedi'i gapio ar 110 o blant); Rhaglenni Rhianta a sesiynau Iaith a Chwarae. Mae'r rhain ar gael yn gyffredinol i bob plentyn rhwng 0-3 oed a'u teuluoedd yn yr ardaloedd lle mae'r cynllun yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, nid yw pob plentyn o gartref incwm isel yn byw mewn ardal lle mae'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gael.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen arloesi gan Lywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo datblygu systemau a chymorth amlasiantaeth effeithiol yn ardaloedd llywodraethau lleol; a cheir pwyslais amlwg ar atal ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen wedi'i hadeiladu ar dystiolaeth mai'r modd gorau o gefnogi plant, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi, yw trwy weithio gyda'r teulu cyfan. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Fodd bynnag mae'r Comisiynydd Plant yn glir, wrth ystyried gofynion holistig teulu mae'n rhaid bodloni anghenion unigol plant a phobl ifanc y teulu hwnnw. Gall fod ar blant a phobl ifanc er enghraifft angen cymorth therapiwteg neu gyfleoedd chwarae er mwyn diwallu'u hanghenion penodol yn rhan o ymateb i'r teulu cyfan.

Mae Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn rhaglenni a dargedir - nid ydynt yn darparu ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn byw yn yr ardaloedd targed nac yn bodloni'r trothwy ar gyfer mynediad i wasanaethau a dargedir. Mae'r Comisiynydd Plant yn poeni y gall newid ffrydiau ariannu a rhesymoli cynlluniau a phartneriaethau lleol gyfyngu ar y flaenoriaeth a roddir i'r cymorth sydd ar gael yn gyffredinol i rieni a gofalwyr. Nid yw pob cartref incwm isel yn yr ardaloedd daearyddol a dargedir gan Dechrau'n Deg ac nid oes angen y lefel o gymorth sy'n cael ei chynnig trwy Deuluoedd yn Gyntaf ar bob cartref incwm isel. Os ydym yn cefnogi rhieni a gofalwyr rydym yn cefnogi gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth i rieni ond nid oes canllawiau cyfredol ar gael i gefnogi rhoi'r gwasanaethau hyn ar waith.

**Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn cyflawni'r canlynol:**

— **Adolygu tystiolaeth o werthuso rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wrth iddi ddod ar gael a monitro cynnydd o'i gymharu â'r dangosyddion sy'n rhan o Raglen y Llywodraeth; bydd y dystiolaeth hon yn llywio'r gwaith blynyddol o ddiweddaru Strategaeth Tlodi Plant Comisiynydd Plant Cymru.**

— **Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r angen am ganllawiau i gefnogi rhoi ar waith y cymorth i rieni fel y nodir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.**

## Nod 2: mynediad i addysg, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata terfynol ar fandio ysgolion uwchradd yn Rhagfyr 2011. Roedd y mesurau a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer gwelliant a oedd yn cynnwys lleihau effaith amddifadedd. Mae data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011 yn nodi bod perfformiad[4] disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn is na'u cymheiriaid anghymwys ar bob cyfnod allweddol ac ym mhob mesur perfformiad. Mae'r Uned Safonau Ysgolion yn cydweithio â chonsortia addysg i symud cynlluniau gwelliant yn eu blaen gyda phob ysgol band 4 a 5.

Mae tystiolaeth yn awgrymu'r mai'r modd o leihau'r bwlch tlodi mewn addysg yw trwy ddulliau holistig ac atgyfnerthu sy'n uno ysgolion, rhieni a chymunedau. Fodd bynnag, mae adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn[5] yn awgrymu mai dim ond 'ychydig o ysgolion' sy'n cefnogi dysgwyr dan anfantais yn dda ac nad yw ysgolion yn rhannu arfer gorau nac ychwaith yn cydweithio'n dda â'i gilydd ar y mater.

**Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn cyflawni'r canlynol:**

— **Adolygu a monitro cynnydd ar ddangosydd Rhaglen y Llywodraeth o ran canran y plant sy'n rhan o gynllun Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygu yn dair oed a gwahaniaethau cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4 o'u cymharu â lefelau amddifadedd; bydd y dystiolaeth hon yn llywio'r gwaith blynyddol o ddiweddaru Strategaeth Tlodi Plant Comisiynydd Plant Cymru.**

— **Defnyddio ei ddylanwad i hyrwyddo arfer da o ran lleihau'r bylchau mewn deilliannau addysgol i blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel a'u cyfoedion. Ymgysylltu â phobl sy'n gwneud penderfyniadau ar lefelau lleol a chenedlaethol o ran yr angen i gyfnewid arfer yn well ac effaith ysgolion bro.**

— **Targedu ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog er mwyn eu cynnwys yn ei raglen Llysgenhadon Ysgolion.**

— **Ysgrifennu i sefydliadau Addysg Uwch Cymru i dynnu sylw at y gwaith y mae Prifysgol Caerdydd yn ei gyflawni wrth gefnogi Clwb Gwaith Cartref Adamsdown yng Nghaerdydd gan ofyn iddynt ystyried partneriaethau tebyg yn rhan o'u gwaith i drechu tlodi plant.**

### Hyrwyddo arfer da – sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn gallu cael mynediad i'w hawl i addysg sy'n eu cynorthwyo i gyrraedd eu potensial

**Ysgol Gynradd Goetre, Merthyr Tudful**
Ymwelodd Comisiynydd Plant Cymru ag Ysgol Gynradd Goetre yn ystod tymor yr haf 2012. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned lle y ceir dangosyddion uchel o amddifadedd lluosog ac mae nifer o'r rhieni yn rhieni ifanc, a nifer ohonynt â phroblemau sgiliau sylfaenol eu hunain. Ar hyn o bryd mae 6 dosbarth prif ffrwd a 3 Uned Adnoddau Dysgu ar gyfer disgyblion a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol yn yr Adran Iau. Yn Adran y Babanod mae Unedau Cyfnod Sylfaen Is ac Uwch a dwy Uned Adnoddau Dysgu sy'n darparu ar gyfer anghenion tua 350 o blant.

Mae'r ysgol wedi cyflogi Swyddog Cymorth i Deuluoedd ar gyfer Addysg sy'n arwain ar y gwaith o gydweithio â theuluoedd

>>>

a'r gymuned i sicrhau bod plant yn cael addysg ac yn elwa ohoni. Mae'r penderfyniad i greu'r swydd hon yn rhan o ethos ehangach ysgol sydd wir yn canolbwyntio ar y gymuned. Mae gan y gwaith ffocws clir ar hyrwyddo perthynas gref a chadarnhaol rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned. Mae'r ysgol yn fwrlwm o weithgarwch sy'n cynnwys cymorth ymarferol yn ogystal â gwaith i ennyn diddordeb teuluoedd mewn addysg. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- **Cynllun ailgylchu gwisg ysgol;**
- **Hwyluso cymorth Banc Bwyd i deuluoedd sy'n ei chael yn anodd bwydo'u plant yn ystod gwyliau ysgol;**
- **Hwyluso menter fwyd gydweithredol gan yr ysgol i gynnig ffrwythau a llysiau rhad i gefnogi teuluoedd incwm isel i ddarparu prydau iach;**
- **Mae presenoldeb gwael yn cael ei fonitro'n agos gan yr ysgol ac mae hyn yn helpu'r ysgol i adnabod teuluoedd a fyddai'n elwa o gymorth asiantaethau eraill i ddelio ag amrywiaeth o broblemau sylweddol eraill megis cam-drin domestig neu gamddefnyddio sylweddau;**
- **Darparu cyfleoedd i rieni ddysgu sgiliau sylfaenol ar safle'r ysgol;**
- **Denu mamau, tadau ac aelodau eraill y teulu i wirfoddoli yn yr ysgol i helpu â datblygu ystafell lythrennedd a chaffi darllen.**

Mae'r Comisiynydd wedi cytuno i ddychwelyd i'r ysgol a dweud stori yn ystafell lythrennedd newydd yr ysgol.

**Clwb Gwaith Cartref Cymunedau'n Gyntaf Adamsdown**
Sefydlwyd y Clwb Gwaith Cartref ddwy flynedd yn ôl gan Gymunedau'n Gyntaf Adamsdown a Chymdeithas Affricanaidd Adamsdown. Nod y clwb yw gwella cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion o ysgolion yng nghanol y ddinas, yn enwedig plant o deuluoedd lle nad oes hanes o fynd i'r brifysgol. Mae tiwtoriaid Prifysgol Caerdydd sy'n fyfyrwyr yn cefnogi'r plant a'r bobl ifanc i baratoi eu gwaith cartref a pharatoi ar gyfer eu harholiadau. Ymwelodd y Comisiynydd Plant â'r clwb gwaith cartref lle

>>>



soniodd plant a phobl ifanc wrtho am y modd y mae'r clwb gwaith cartref wedi helpu â'u haddysg. Dywedasant hefyd eu bod yn mwynhau mathemateg a gwyddoniaeth. Y canlyniad net yw gwelliannau sylweddol yn eu graddau yn yr ysgol. Mae eu hyder wedi datblygu ac maent yn llwyddo mewn ffyrdd nad oeddynt yn credu oedd yn bosibl. Mae hefyd yn amlwg bod myfyrwyr y Brifysgol wedi elwa o'r fenter hon.

**Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch a'r Uned Pobl a Gwaith**
Mae Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch ar y cyd â'r Uned Pobl a Gwaith wedi datblygu ffrwd waith sy'n canolbwyntio'n bendant ar godi gwerth dysgu a chyrhaeddiad yn y gymuned. Mae'r gymuned yn cynnwys rhai ysgolion gwych ond oherwydd canlyniadau TGAU gwael, lefel llythrennedd isel a nifer fawr o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, roedd y gymuned yn uchel ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer addysg. Mae Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar Gymunedau Glyncoch yn rhaglen ymchwil weithredu sy'n dilyn grŵp o blant yn ystod cyfnod eu haddysg uwchradd ac yn cynnig cymorth iddynt a'u teuluoedd. Mae'r prosiect yn monitro eu presenoldeb, eu hymddygiad, eu cyrhaeddiad a chyswllt eu teulu â'r ysgol. Mae effaith y prosiect hwn a'r gwaith ehangach yn y gymuned ar ddatblygu capasiti teuluoedd a'r gymuned i gefnogi dysgu yn dechrau dod i'r amlwg.

Cafodd Comisiynydd Plant Cymru wybod bod rhai o'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig wedi dechrau mynd i'r coleg, mae triwantiaeth ymysg rhai grwpiau blwyddyn wedi gostwng un rhan o dair ac mae tri pherson ifanc newydd ddechrau yn y brifysgol. Ar yr un pryd mae Build it Glyncoch wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn y maes adeiladu wrth weithio ar wella cyfleusterau cymunedol. Bydd cam nesaf y gwaith yn cynnwys penodi Gweithiwr Dysgu fel Teulu ar gyfer plant oed cynradd a fydd yn cael ei ariannu trwy'r Loteri ac Oxfam.

## Nod 3: cael yr iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl

Lansiwyd y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yn 2005 gan nodi safonau pwysig o ran cymorth a darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Fframwaith yn nodi safonau ar gyfer plant a phobl ifanc a chanddynt broblemau ac anhwylderau iechyd meddwl, plant a phobl ifanc anabl, plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig a phlant a phobl ifanc a chanddynt salwch neu anaf acíwt neu gronig. Mae'r holl broblemau hyn yn gysylltiedig â risg gynyddol o dlodi. Gwelir, er enghraifft, cynnydd graddol mewn problemau ymddygiad a phroblemau emosiynol plant sydd dan anfantais gymdeithasol gynyddol.[6] Mae tystiolaeth ddiweddar yn cefnogi'r safbwynt bod teuluoedd a chanddynt blentyn anabl yn parhau i wynebu caledi ariannol.[7] Mae plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig yn cynnwys amrywiaeth o amgylchiadau er enghraifft plentyn a chanddo riant yn y carchar. Mae ymchwil yn awgrymu bod polisïau cyfiawnder troseddol a lles cymdeithasol yn cyfuno i achosi tlodi, anfanteision ac i eithrio teuluoedd carcharorion ac yn enwedig eu plant.[8] Mae plant a chanddynt garcharor yn y teulu yn debygol o wynebu ystod o broblemau gan gynnwys lles emosiynol gwael, ymddygiad aflonyddgar, hunan-barch isel, cyrhaeddiad addysg gwael ac anawsterau iechyd meddwl.[9]

Gallai'r Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth, petai'n cael ei weithredu'n gadarn, gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi. Byddai hyn yn cefnogi'r amcanion strategol o leihau anghydraddoldebau iechyd fel y nodwyd yn 'Canlyniadau Tecach i Bawb' (2011). Fodd bynnag, mae statws presennol y Fframwaith yn aneglur.

Mae lles cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc yn bwysig ynddo'i hun ond hefyd oherwydd ei fod yn effeithio ar eu hiechyd corfforol (yn berson ifanc ac yn oedolyn). Mae iechyd cymdeithasol, emosiynol a seicolegol da yn helpu i ddiogelu pobl ifanc yn erbyn problemau emosiynol ac ymddygiad, trais a throseddu, beichiogrwydd yn yr arddegau a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gall hefyd eu helpu i ddysgu a llwyddo yn academaidd, ac o ganlyniad effeithio ar eu lles cymdeithasol ac economaidd hir dymor.[10] Ceir rhai enghreifftiau ardderchog o waith sy'n cael



ei wneud mewn a thrwy ysgolion i gefnogi a hyrwyddo lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Mae'r mwyafrif o blant yng Nghymru yn mynychu'r ysgol ac mae hyn yn rhoi cyfle perffaith iddynt gael cymorth i wella'u lles emosiynol.

Mae'r bylchau annheg mewn iechyd a lles wedi bod yn cynyddu dros yr 20 mlynedd diwethaf.[11] Ceir deg prif flaenoriaeth yn y strategaeth Ein Dyfodol Iach (2009) gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lleihau annhegwch mewn iechyd;
- Lleihau lefelau ysmygu;
- Lleihau bwyta afiach;
- Stopio niwed cynyddol alcohol a chyffuriau;
- Lleihau beichiogrwydd ymysg pobl ifanc yn eu harddegau;
- Cynyddu gweithgarwch corfforol.

Mae rhai adnoddau pwerus o ran negeseuon iechyd cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu gan blant a phobl ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel gymunedol. Gellid gwneud rhagor i hyrwyddo rhannu'r adnoddau hyn. Mae defnyddio 'fideos feirysol' i ledaenu negeseuon iechyd cyhoeddus wedi'i nodi'n ffenomena sy'n tyfu.[12]

**Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n cyflawni'r canlynol:**

- **Adolygu a monitro cynnydd y dangosyddion iechyd perthnasol a gynhwysir yn Rhaglen y Llywodraeth. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio'r gwaith blynyddol o ddiweddaru Strategaeth Tlodi Plant Comisiynydd Plant Cymru;**

- **Gofyn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ar statws cyfredol y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth a'r modd y mae'r Fframwaith yn cael ei roi ar waith;**

- **Mae'r Comisiynydd eisoes yn ymwybodol o ystod o raglenni effeithiol a chanddynt dystiolaeth dda sy'n cael eu cyflawni trwy ysgolion cynradd i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Ceir rhai enghreifftiau o ddulliau tebyg mewn ysgolion uwchradd. Bydd y Comisiynydd yn gofyn am ragor o wybodaeth am gyflawni rhaglenni o'r fath ar lefel uwchradd a bydd yn hyrwyddo'r rheiny sy'n effeithiol;**

— **Lansiwyd ymgyrch 'See Me/Dyma Fi' gan Gomisiynydd Plant Cymru i chwalu stereoteipiau negyddol a helpu i wella agweddau tuag at blant a phobl ifanc yng Nghymru. Bellach mae'r Comisiynydd yn awyddus i ddatblygu cyfleuster 'siop gyfnewid' fideos ac adnoddau trwy gyfrwng gwefan yr ymgyrch www.seeme-dymafi.org.uk. Gall plant, pobl ifanc a'r gymuned neu grwpiau ysgol sy'n gweithio gyda nhw gyflwyno ffilmiau ac adnoddau eraill y maent wedi'u datblygu ynghylch iechyd cyhoeddus (yn ogystal â materion eraill). Bydd y wefan yn darparu modd o rannu'r gwaith iechyd cyhoeddus pwysig sy'n cael ei greu gan blant a phobl ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd yr adnodd hwn yn cael ei hyrwyddo trwy rwydweithiau Cymunedau'n Gyntaf yng Nghymru.**

## Hyrwyddo arfer da - cymorth i gynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi i wireddu'u hawl i gael yr iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl

**Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch, Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Heddlu De Cymru a Pharth Diogelwch Trefforest**
Smalley Dee goes up in smoke - Ffilm gwrth-ysmygu yw hon a gynhyrchwyd gan bobl ifanc Glyncoch. Cefnogwyd y prosiect bancio amser hwn gan Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch a Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf. Paratowyd y stori, yr actio, cynhyrchiad y gerddoriaeth, y geiriau a'r perfformiad gan grŵp bach o blant hynod o dalentog rhwng 6-11 oed yn ystod gwyliau'r Pasg a'r Haf 2011. www.youtube.com/watch?v=xq5OZyXxQ1s&feature=relmfu

**Smalley Dee 2 – Down With Drugs**
Fideo sy'n cynnwys rap gwrth-gyffuriau a gynhyrchwyd gan Dîm Gweithredu Ieuenctid Glyncoch yn ystod Gwyliau'r Pasg 2012. Gwnaethpwyd yr holl ysgrifennu (stori, geiriau a cherddoriaeth) a pherfformiadau (actio a chanu) gan nifer o drigolion 8-14 oed o ardal Glyncoch, sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth. Cefnogwyd gan Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch, Heddlu De Cymru a Pharth Diogelwch Trefforest. www.youtube.com/watch?v=bmA8jhbem20



**Ysgol Gynradd Goetre, Merthyr Tudful a rhaglen SEAL (agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu)**
Mae rhaglen SEAL yn seiliedig ar ddeunyddiau cwricwlwm sy'n ceisio datblygu'r rhinweddau sylfaenol sy'n helpu i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a dysgu effeithiol. Cymerodd Ysgol Gynradd Goetre ran mewn prosiect Ymchwil Weithredu a gyflwynwyd yn rhan o raglen waith Rhagori Llywodraeth Cymru mewn ysgolion yng nghlwstwr Pen-y-Dre. Datblygodd Ysgol Goetre Ymagwedd Ysgol Gyfan tuag at SEAL trwy gyfrwng y prosiect. Ailysgrifennwyd y polisi ymddygiad gan yr ysgol gan ganolbwyntio ar wobrwyo penderfyniadau da a defnyddir themâu SEAL i ddatblygu cymhelliant trwy weithgareddau i annog gwireddu nodau personol, academaidd a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn gallu dangos tystiolaeth o'r deilliannau trwy well Llythrennedd Emosiynol i ddisgyblion.

**Ysgol Gymunedol Townhill, Abertawe**
Ysgol adferol yw Ysgol Gymunedol Townhill. Mae arfer adferol yn rhoi grym i athrawon fod yn ymarferwyr llwyddiannus ac effeithiol yn eu dosbarthiadau, gan godi safonau a chyrhaeddiad ar draws yr ysgol a datblygu disgyblion uchelgeisiol, brwdfrydig a chyfrifol. Weithiau mae pob plentyn yn dod i'r ysgol â phryderon a waeth a yw'n bryder bach neu fawr, gall effeithio ar blentyn ac o ganlyniad effeithio ar ei addysg y diwrnod hwnnw.

Bu'r Comisiynydd Plant yn bresennol yn un o sesiynau cylch boreol yr ysgol lle rhoddir cyfle i ddisgyblion siarad am eu teimladau ac unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae gan bob ystafell ddosbarth fwrdd teimladau/hwyliau, sy'n cynnwys enwau unigolion y gellir eu gosod ar y teimladau i gyfleu eu teimladau'r diwrnod hwnnw. Mae pob dosbarth yn cael cyfle ar ddiwedd pob diwrnod i drafod sut ddiwrnod a gawsant. Gwnaethpwyd argraff ar y Comisiynydd Plant gan y dulliau yr oedd yr ysgol yn eu defnyddio i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn gyfforddus trwy gydol eu diwrnod ysgol gan flaenoriaethu eu lles emosiynol.

## Nod 4: cael mynediad i gyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant

Ceir digon o dystiolaeth ynglŷn â manteision mynediad i chwarae o ran hyrwyddo lles plant a phobl ifanc[13] yn ogystal ag effeithiau negyddol eu hamddifadu o chwarae.[14] Cyfyngir ar gyfleoedd chwarae a hamdden strwythuredig plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel oherwydd costau cludiant a mynediad.[15] Mae'r broblem o gost yn rhwystro cyfranogiad yn cael ei gwaethygu pan fo clybiau neu grwpiau yn gofyn i rieni dalu costau'r tymor ymlaen llaw, cost na all teuluoedd incwm isel ar gyllideb wythnosol dynn ei thalu. Er bod gan blant a phobl ifanc gyfleoedd i chwarae'n rhydd yn y gymuned, mae plant a phobl ifanc cymunedau difreintiedig yn aml yn dweud nad ydynt yn teimlo'n ddiogel a/neu nid yw oedolion yn eu croesawu mewn mannau cymunedol lle byddent yn dymuno chwarae.[16]

Llywodraeth Cymru yw'r llywodraeth gyntaf yn y byd i sefydlu dyletswydd o ran chwarae yn ei fframwaith deddfwriaethol trwy Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfarwyddyd i awdurdodau lleol y mae ei angen arnynt i roi ar waith y ddarpariaeth chwarae a nodir ym Mesur 2010. Mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol mae pryder y bydd darpariaeth chwarae yn cael ei hystyried yn rhywbeth ychwanegol yn hytrach na hawl i bob plentyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau drafft a chanllawiau statudol sy'n nodi'r ystod o faterion y mae angen i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid eu hystyried wrth lenwi asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae o ran rhan gyntaf y ddyletswydd ym Mesur 2010. Ail ran y ddyletswydd ar awdurdodau lleol yw sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd, cyn belled ag y bo'n ymarferol, o ystyried yr asesiadau a'r ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd ac i ddiweddaru'r wybodaeth. Bydd hyn yn dechrau ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r asesiadau a chynlluniau awdurdodau lleol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae.

Mae tystiolaeth gan Chwaraeon Cymru[17] yn nodi bod disgyblion mewn ysgolion a chanddynt ganran uwch o blant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn llai tebygol o gymryd rhan reolaidd mewn chwaraeon. Maent hefyd yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon arferol mewn clwb neu ymweld â chanolfan hamdden. Mae chwaraeon yn annog gweithio mewn tîm, yn datblygu hunanhyder, yn helpu plant a phobl ifanc i sylweddoli eu bod yn gallu gwneud rhywbeth yn dda ac mae'n rhywbeth y gallant edrych ymlaen ato. Mae'n eu gwneud yn iach ac yn hapus. A ninnau'n oedolion mae angen i ni ddarparu cyfleoedd a chynigion i blant a phobl ifanc er mwyn iddynt ddarganfod a mwynhau chwaraeon sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae gan amgueddfeydd rôl hanfodol o ran darparu gwybodaeth a phrofiadau i blant a phobl ifanc a all gefnogi'u dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth ddiwylliannol. Yr her nawr yw sicrhau bod yr hawl i gael mynediad at ystod eang o weithgareddau diwylliannol yn cael ei roi i bob plentyn a pherson ifanc gan gynnwys plant sy'n byw mewn tlodi. Dywed ymchwil wrthym fod nifer o rwystrau i'w goresgyn i gynnwys plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig mewn gweithgareddau amgueddfeydd.[18] Ceir ymrwymiad yng Nghymru i roi mynediad am ddim i arddangosfeydd yn ogystal ag i'r amgueddfeydd eu hunain a cheir tystiolaeth y bu cynnydd yn nifer y bobl o gymunedau difreintiedig sy'n ymweld ag Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru ers cyflwyno mynediad am ddim yn 2001. Y llynedd cyhoeddwyd adroddiad Estyn ar drechu tlodi ac anfantais mewn gwasanaethau ysgolion. Nododd yr adroddiad fod ysgolion effeithiol mewn ardaloedd difreintiedig yn rhoi cryn bwyslais ar ddarpariaeth allgyrsiol a darpariaeth y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys cyfoethogi diwylliannol.[19]

Mae gwasanaethau ieuenctid a phrosiectau cymunedol yn chwarae rhan hanfodol mewn darparu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc mewn cymunedau difreintiedig gael cymryd rhan mewn gweithgareddau a all eu helpu i ddatblygu'u hyder a'u hunan-barch ac i wneud cyfraniad i'r gymuned.

**Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn cyflawni'r canlynol:**

— **Adolygu canlyniadau gweithredu'r Ddyletswydd Chwarae Ddigonol ledled awdurdodau lleol Cymru gan ganolbwyntio'n benodol ar y sylw a roddir i anghenion plant a phobl ifanc o gymunedau a chartrefi difreintiedig; bydd y dystiolaeth hon yn llywio'r gwaith blynyddol o ddiweddaru Strategaeth Tlodi Plant Comisiynydd Plant Cymru;**

— Monitro'r wybodaeth a ddaw i sylw swyddfa'r Comisiynydd o ran cael gwared ar unrhyw ddarpariaeth chwarae, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl o ganlyniad i newid mewn nawdd neu drefniadau cynllunio a phartneriaid, a bydd y dystiolaeth hon yn llywio'r gwaith blynyddol o ddiweddaru Strategaeth Tlodi Comisiynydd Plant Cymru;

— Ymgysylltu â Chwaraeon Cymru o ran cyfleoedd i gydweithio er mwyn bwrw ymlaen ag amcanion Strategaeth Tlodi Plant Chwaraeon Cymru a Strategaeth Tlodi Plant Comisiynydd Plant Cymru;

— Cydweithio â Llywodraeth Cymru a Kids in Museums i ddatblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud ag amgueddfeydd Cymru. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod amgueddfeydd yn fannau croesawgar i blant, pobl ifanc a theuluoedd gan yrru ymlaen rhagor o ymgysylltu.

— Cydweithio ag Asiantaeth Ffilm Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru i gyflawni cynllun peilot Llysgenhadon Cymunedol Comisiynydd Plant Cymru.

— Mae'r Comisiynydd Plant wedi defnyddio'i adroddiad blynyddol i alw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r oedi o ran canllawiau allweddol ym maes cymorth ieuenctid. Bydd blaengynllun gwaith y Comisiynydd Plant yn cynnwys ffocws ar gasglu tystiolaeth ynglŷn â sefydlogrwydd a diogelwch cyfleoedd i ymgysylltu'n ddigonol â phobl ifanc yng Nghymru a rhoi cymorth digonol iddynt. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gwaith penodol ar effaith unrhyw brosesau cynllunio neu ariannu ar ddarpariaeth i bobl ifanc o gymunedau difreintiedig.



## Hyrwyddo arfer da – cymorth i gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi i wireddu'u hawl i gyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.

**Prosiect Chwarae Llwybrau Porffor, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro**
Prosiect a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr yw Prosiect Chwarae Llwybrau Porffor sy'n cefnogi cyfleoedd chwarae i blant yn y gymuned. Mae'r prosiect yn darparu sesiynau chwarae mynediad agored i blant a phobl ifanc rhwng 5-15 oed mewn parciau a mannau agored ar draws 16 o ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, gan gynnwys 4 ardal Cymunedau'n Gyntaf. Ymwelodd y Comisiynydd Plant â Pharc Spray and Play Morfa yn Llanelli lle y gwnaeth gwrdd â phlant wrth iddynt fwynhau sesiwn chwarae mynediad agored. Gwnaeth y Comisiynydd hefyd gwrdd ag aelodau etholedig, aelodau staff a bwrdd Cymunedau'n Gyntaf a Swyddog Datblygu Chwarae Sir Gaerfyrddin. Roedd yn amlwg bod y prosiect Llwybrau Porffor yn darparu adnodd gwerthfawr i blant a phobl ifanc a bod y gwaith hwn yn rhan o ymrwymiad ehangach i bwysigrwydd chwarae fel y nodir yn Strategaeth Chwarae Plant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin. Yr hyn oedd yn bwysig oedd bod y penderfyniadau ynglŷn â'r hyn y dylid ei ddarparu yn seiliedig yn rhannol ar ymgynghoriad cymunedol a oedd wedi cynnwys plant a phobl ifanc ledled cymunedau Sir Gaerfyrddin mewn creu ffilmiau byr ynglŷn â chyfleoedd chwarae.

**Cymunedau'n Gyntaf Betws, Casnewydd: Achrediad Gwobr Arweinydd Chwaraeon Cymunedol Iau ac Arweinydd Chwaraeon Cymunedol**
Fel rhan o'r gwaith i wella mynediad i hyfforddiant, addysg a chyflogaeth mae Cymunedau'n Gyntaf Betws, Casnewydd yn cefnogi pobl ifanc i weithio tuag at achrediad Gwobr Arweinydd Chwaraeon Iau (14-18 oed) ac achrediad Gwobr Arweinydd Chwaraeon Cymunedol (16-25 oed). Mae'r bobl ifanc hefyd

>>>

yn cymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin. Gwnaeth y Comisiynydd Plant gwrdd â phobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun a dywedasant wrtho y byddent yn 'gwneud dim byd' heb y cyfle hwn. Er gwaethaf rhai problemau cymhleth ynglŷn â'r lleoliad ar gyfer y gwaith hwn a chwestiynau ynglŷn â chyllid i sicrhau cysondeb o ran cymorth staff, gwnaethpwyd argraff ar y Comisiynydd gan frwdfrydedd ac ymrwymiad y bobl ifanc a'r staff a oedd yn rhan o'r gwaith. Gobaith y bobl ifanc yw y bydd y sgiliau achrededig y maent yn eu meithrin yn eu helpu â chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

**Just Bling? – Dysgu Trwy Ddiwylliant a Chreadigrwydd**
Bwriad Just Bling? oedd cynnig cyfleoedd i bobl ifanc na fyddent fel arfer yn eu cael. Wrth wraidd pob agwedd unigol ar y prosiect roedd ymrwymiad i gefnogi dysgu galwedigaethol a chymunedol, estyn addysg bersonol a chymdeithasol, datblygu sgiliau cyfranogi a dinasyddiaeth, cryfhau gwaith allgymorth i bobl ifanc ddifreintiedig, gwella ansawdd ac amrywiaeth y gefnogaeth i bobl ifanc a datblygu mentrau i annog ymgysylltiad mewn dysgu a hyfforddiant. Roedd Just Bling? yn cyfuno fframwaith gweledigaeth y celfyddydau, yr amgueddfeydd a Chymunedau'n Gyntaf mewn modd arloesol i ddarparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc. Roedd y prosiect yn cynnig ystod o brofiadau i alluogi cyfranogwyr i feithrin sgiliau wrth archwilio materion yn ymwneud â'u diwylliant a'u hetifeddiaeth eu hunain, ynghyd â diwylliant ac etifeddiaeth eraill. Creodd y cyfranogwyr wrthrychau, arddangosfeydd, delweddau, ffilmiau ac adnoddau amlgyfrwng, a oedd oll yn cyflwyno safbwyntiau a syniadau pobl ifanc eu hunain ar emwaith a bling. Daeth Amgueddfa Cymru â grwpiau o bobl ifanc ynghyd o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i amgueddfeydd ledled Cymru i weithio gydag artistiaid a gweithwyr proffesiynol o amgueddfeydd i greu eu bling eu hunain – boed yn fodrwy syml neu'n addurn cymhleth i'r corff. Cafodd gwaith y bobl ifanc ei arddangos yn yr amgueddfeydd cenedlaethol yn ystod Gorffennaf - Medi 2012. Ariannwyd y prosiect trwy Gronfa Canlyniadau Cymunedau'n Gyntaf. Ymwelodd staff o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru â'r arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe i weld y gwaith trawiadol a gafodd ei gynhyrchu a'i arddangos.



## Nod 5: Eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod

Mae plant a phobl ifanc difreintiedig neu 'agored i niwed' yn aml yn wynebu rhwystrau i gyfranogi.[20] Awgryma tystiolaeth ymchwil fod sefydliadau sy'n llwyddo i ennyn diddordeb pobl ifanc difreintiedig yn gwneud hynny oherwydd eu bod yn dibynnu'n fawr ar waith allgymorth gan asiantaethau sydd wedi sefydlu enw da yn y gymuned leol ac asiantaethau eraill a chanddynt gyswllt â grwpiau penodol o bobl ifanc.[21] Yn ogystal â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i ymwneud â gwaith datblygu strategol a darparu gwasanaethau, mae'n rhaid i wasanaethau ystyried sut y gallant gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar lefel unigol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu a mabwysiadu Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad ar gyfer darparwyr gwasanaethau i blant a phobl ifanc ac mae Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod strategaethau cyfranogiad lleol ar sail statudol. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid lunio Strategaeth Cyfranogiad Lleol er mwyn i blant a phobl ifanc gael cyfleoedd i leisio'u barn ac i fod yn rhan o benderfyniadau ar lefel leol sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn grwpiau lleiafrifoedd ethnig cydnabyddedig ac felly cânt eu diogelu o dan ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol. Fodd bynnag mae nifer o sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar eu rhan, gan gynnwys y sectorau statudol, preifat a gwirfoddol yn methu â chydnabod y cymunedau hyn felly. Caiff cymunedau Sipsiwn a Theithwyr eu cyflwyno'n aml ag agweddau rhagfarnllyd a chollfarnol ynghyd â diffyg dealltwriaeth a diddordeb diwylliannol wrth iddynt geisio cysylltu â gwasanaethau prif ffrwd gan gynnwys gwasanaethau addysg, iechyd, plant a phobl ifanc. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith polisi strategol, 'Teithio at Ddyfodol Gwell' yn 2011. Cynhyrchodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adolygiad cynhwysfawr o'r anghydraddoldebau a wynebir gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn 2009[22] ac roedd y lefelau uchel o dlodi ymysg y boblogaeth yn un o'u prif feysydd o bryder.

**Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn cyflawni'r canlynol:**

- **Adolygu Strategaethau Cyfranogiad Lleol o ran tystiolaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i gynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel a chymunedau dan anfantais;**

- **Ymgymryd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi'i thargedu ledled clystyrau Cymunedau'n Gyntaf yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o wasanaeth Ymchwilio a Chyngor Comisiynydd Plant Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cyngor ymarferol ac yn sicrhau bod asiantaethau priodol yn ymwneud â phlant, pobl ifanc a'r rhai sy'n mynegi pryderon ar eu rhan er mwyn i wasanaethau glywed eu barn. Yn gam olaf, lle bo tystiolaeth nad yw gwasanaethau yn dilyn prosesau neu weithdrefnau yn y modd y dylent neu nad yw cwynion yn cael eu hystyried o ddifrif, mae'r gwasanaeth Ymchwilio a Chyngor yn delio â'u pryderon yn uniongyrchol ar y cyd â darparwyr ar sail gwaith achos;**

- **Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio gydag ac ar ran plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr i nodi'r materion y dylai Comisiynydd Plant Cymru fynd i'r afael â nhw o ran anghenion y grŵp hwn o blant a phobl ifanc, ac i godi ymwybyddiaeth o wasanaeth Ymchwilio a Chyngor Comisiynydd Plant Cymru.**



## Hyrwyddo arfer da – cefnogaeth i gynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi i gael eu trin â pharch a chael cydnabyddiaeth o'u hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol

**Cyfranogiad**
Roedd yr holl brosiectau Cymunedau'n Gyntaf yr ymwelodd Comisiynydd Plant Cymru â nhw yn dangos yn glir eu bod yn gweithio â'r bwriad o ddarparu cyfleoedd ystyrlon i safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc gyfrannu at benderfyniadau am sut y caiff prosiectau cymunedol eu datblygu. Roedd hefyd enghreifftiau o ardaloedd lle darparwyd hyfforddiant i blant a phobl ifanc ymgymryd â'u hymgynghoriadau cymunedol eu hunain a gwelwyd enghreifftiau o bobl ifanc eu hunain yn arwain penderfyniadau am weithgareddau a phrosiectau i'w datblygu.

**Ministry of Life, Caerdydd**
Mae Ministry of Life yn rhaglen datblygu sgiliau ac allgymorth i bobl ifanc a chanddi'r bwriad o addysgu pobl ifanc i berfformio, trefnu a chynnal digwyddiadau ieuenctid. Mae'r prosiect yn cael ei rhedeg yng nghanolfan adnoddau Adamsdown ac er ei fod bellach yn annibynnol, prosiect Cymunedau'n Gyntaf ydoedd ar y dechrau. Mae Ministry of Life yn darparu gweithdai ar sgiliau DJ, MC, cynhyrchu sain a pherfformio. Mae gan aelodau'r cyfle i feithrin neu i wella amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys cynnal digwyddiadau, hysbysebu, cadw amser, iechyd a diogelwch, technoleg sain, cyllid, arlwyo, stiwardio ac eraill. Cyfarfu'r Comisiynydd Plant â sylfaenydd y prosiect a chlywodd am y llwyddiant y mae'r prosiect yn ei gael o ran denu pobl ifanc Tsiec Roma. Mae plant a phobl ifanc o'r gymuned Tsiec Roma leol dan anfantais arbennig ac yn cael eu hymyleiddio. Yn draddodiadol, cawsant eu hystyried gan sefydliadau a gwasanaethau yn grŵp sy'n 'anodd cysylltu ag ef'. Fodd bynnag, mae'r sesiynau y mae Ministry of Life yn eu cynnig wedi bod yn denu nifer gynyddol o bobl ifanc Tsiec Roma ac mae hyn yn darparu cyfle cadarnhaol i'w cynnwys ym myd y gymuned ehangach.

## Nod 6: cael cartref a chymuned ddiogel

Gwelwyd cynnydd cyffredinol yn nifer y teuluoedd a'u dderbynnir yn ddigartref ers diwedd 2009. Gallai cymariaethau diweddar yn y wasg sy'n awgrymu bod graddfeydd cynnydd yn arbennig o uchel yng Nghymru fod yn gamarweiniol oherwydd nid yw cymhariaeth uniongyrchol â'r rhanbarthau yn Lloegr yn ystyried gwahaniaethau o ran sut y caiff ceisiadau digartrefedd eu delio â nhw yng Nghymru. Fodd bynnag y categori angen blaenoriaethol mwyaf cyffredin o hyd yn y ffigurau diweddaraf (mis Ionawr i fis Mawrth 2012)[23], yw teuluoedd lle ceir plant dibynnol neu fenyw feichiog, gan gyfrif am 42% o'r holl dderbyniadau. Mae nifer y bobl ifanc 16 i 17 oed a dderbynnir yn ddigartref wedi lleihau ers y pwynt uchaf o 13% yn 2009-2010. Mae datganiad ystadegol Llywodraeth Cymru yn awgrymu y gallai hyn fod o ganlyniad i ragor o waith cyfryngu teuluol. Gallai newidiadau diwygio lles Llywodraeth y DU ynghyd â'r sefyllfa economaidd sydd ohoni olygu y bydd teuluoedd yn ei chael yn anodd cefnogi pobl ifanc i aros yn y cartref teuluol oherwydd caledi ariannol.

Mae 'Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru 2011' yn nodi nad yw'r 'safon addasrwydd' a ddefnyddir i asesu pa gartrefi sy'n addas i bobl fyw ynddynt, bellach yn cael ei ddefnyddio, ond yn 2008 asesodd arolwg stoc Byw yng Nghymru, am y tro olaf, nifer y cartrefi anaddas a phwy oedd yn byw ynddynt. Darganfuwyd bod 18,994 o gartrefi sy'n cynnwys un neu ragor o bobl o dan 25 oed yn anaddas.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch Mesur Tai a chanddo'r bwriad o wella'r system dai yng Nghymru. Nodir rôl tai o ran mynd i'r afael â thlodi yn y Papur Gwyn a cheir cyfeiriad uniongyrchol at y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2012). Rhoddir sylw hefyd yn y Papur Gwyn i dlodi tanwydd, problem sylweddol i deuluoedd a chanddynt blant ac i bobl ifanc agored i niwed sy'n byw'n annibynnol.

Cyhoeddwyd adroddiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol ar ei ymchwiliad i'r ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu yn 2010.[24] Mae'r adroddiad yn cyfnerthu'r dystiolaeth y mae plant, pobl ifanc a sefydliadau wedi bod yn ei chyflwyno ers cryn amser. Y ffaith yw bod gan blant a phobl ifanc, ac yn enwedig y rhai sy'n byw mewn cymunedau dan anfantais, bryderon go iawn am ddiogelwch yn y gymuned. Mae byw mewn



cymunedau sy'n llawn baw ci, sbwriel a phetheuach cyffuriau, rhannu lleoedd cyhoeddus â thraffig sy'n teithio dros 20 milltir yr awr a theimlo nad oes croeso iddynt gan oedolion neu bod oedolion yn ymddwyn yn frawychus, oll yn faterion y mae plant a phobl ifanc yn parhau i fynegi pryder amdanynt.

**Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn cyflawni'r canlynol:**

- **Ceisio cael ymateb gan Lywodraeth Cymru i'w alwad am gyfeiriad at rôl tai o ran y Ddyletswydd Tlodi Plant ar wyneb y Mesur Tai;**
- **Defnyddio ei ymgyrch 'See MeIDyma Fi' i chwalu stereoteipiau negyddol a helpu i wella agweddau tuag at blant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn iddynt gael eu deall yn well gan eu cymunedau ac i gefnogi cydlyniant cymunedol gwell rhwng y cenedlaethau;**
- **Cysylltu â'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd newydd pan gânt eu penodi i dynnu eu sylw at yr effaith gadarnhaol y gall dulliau datblygu cymunedol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol ei chael ar wella diogelwch cymunedol.**

### Hyrwyddo arfer da – cymorth i gynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddeall eu hawl i gael cartref a chymuned ddiogel

**Craigfelen Residents in Action a Chymunedau'n Gyntaf, Abertawe**

Ymwelodd Comisiynydd Plant Cymru â Neuadd Gymunedol Craigfelen a chwrdd â gwirfoddolwyr Craigfelen Residents in Action. Yma fe glywodd am y gwaith y maent yn ei wneud mewn partneriaeth â Chymunedau'n Gyntaf, Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol Clydach ac Ysgol Gynradd Craigfelen. Bu gan Graigfelen yng Nghlydach, Abertawe gyfraddau troseddu uchel yn ymwneud ag alcohol a chyffuriau. Nid oedd nifer o'r troseddau'n cael eu cofnodi a dywedwyd wrth y Comisiynydd bod llawer o breswylwyr yn byw gan ofni delwyr cyffuriau a

>>>

throseddwyr lleol. Daeth grŵp Craigfelen Residents in Action at ei gilydd yn 2001 i geisio newid pethau yn y gymuned, ac ers cael neuadd gymunedol yn ganolbwynt i weithredu cymunedol, maent wedi mynd o nerth i nerth. Mae aelodau pwyllgor gwirfoddoli Craigfelen a Chymunedau'n Gyntaf wedi bod yn gweithio'n agos gyda'u Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu i newid pethau yn y gymuned. Mae'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cynnig syrjeri 'paned â phlismon' yn y neuadd gymunedol.

Dywedodd y Pwyllgor wrth y Comisiynydd am y gwelliannau go iawn mewn perthnasau rhwng cenedlaethau yn y gymuned a'r teimlad o barch ac ysbryd cymunedol sydd bellach yn bodoli. Yn ddiweddar, daeth y Tîm Plismona Cymunedol a Chymunedau'n Gyntaf at ei gilydd gyda'r gwirfoddolwyr i gynnal Diwrnod Diogelwch Cymunedol ac mae'r plant a'r bobl ifanc wedi dylunio eu posteri diogelwch cymunedol eu hunain i drosglwyddo negeseuon am ddiogelwch ar y ffyrdd, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Y peth pwysig yw bod y sefydliadau sy'n cydweithio yn y gymuned yn meddwl am ffyrdd rhagweithiol o weithio gyda phlant a phobl ifanc cythryblus i godi eu dyheadau a'u hunan-barch.

**Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch a'r Uned Pobl a Gwaith, Rhondda Cynon Taf**
Mae Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Uned Pobl a Gwaith – elusen annibynnol o Gymru a gafodd ei sefydlu bron 30 mlynedd yn ôl. Datblygwyd amrywiaeth eang o waith ledled y gymuned i godi dyheadau, cynyddu cyfleoedd a chefnogi llwyddiant. Darparwyd hyn o fewn fframwaith a chanddo'r bwriad o hwyluso newid diwylliannol cadarnhaol yn y gymuned. Ymwelodd y Comisiynydd Plant â'r gymuned a chlywed am fwriadau a chanlyniadau'r dull hwn – un canlyniad nodedig oedd bod gan y gymuned bellach y gyfradd drosedd isaf yn rhanbarth Pontypridd.



**Betws yn ei Blodau, Betws, Casnewydd**
Ymwelodd y Comisiynydd Plant â'r cyfleuster cymunedol hwn gan gyfarfod ag aelodau craidd y grŵp cymunedol a sefydlodd y ganolfan ac sy'n ei rhedeg 364 diwrnod y flwyddyn (dim ond ar ddydd Nadolig y mae ar gau). Mae'r cyfleuster yn cynnwys gerddi trawiadol ac adeilad cymunedol. Cynhelir dosbarthiadau, clybiau a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r amgylchedd, addysg a hamdden ar y safle. Darparu lle croesawgar a chadarnhaol i blant a phobl ifanc yw un o'r prif resymau y mae'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y cyfleuster yn gweithio mor galed trwy'r dydd bob dydd ac nid ydynt wedi cael problemau fandaliaeth o gwbl. Defnyddir yr adeilad hefyd i ddarparu addysg amgen i blant a phobl ifanc o'r ysgol uwchradd leol.

## Nod 7: nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi

Mae tlodi plant yng Nghymru yn broblem sylweddol ac mae'n debygol y bydd yn effeithio ar fywydau nifer gynyddol o blant a phobl ifanc. Bydd y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael cyfleoedd cyfyngedig yn ystod eu plentyndod, gallent gael eu cyfyngu yn eu gallu i gael mynediad at eu hawliau ac maent mewn perygl o ddod yn oedolion heb lawer o gyfleoedd i wireddi eu potensial, oll oherwydd eu bod yn dod o gartrefi incwm isel. Er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yng Nghymru dan anfantais oherwydd tlodi mae'n rhaid i ni sicrhau eu bod yn gallu gwireddu eu hawliau fel y cânt eu cynrychioli trwy holl Nodau Craidd Llywodraeth Cymru i blant a phobl ifanc.

Daw tlodi yn sgil incwm annigonol cartrefi. Mae plant a phobl ifanc mewn perygl o fod dan anfantais oherwydd tlodi os ydynt yn byw mewn teulu lle mae gan rieni, gofalwyr neu blant anabledd, lle mae'r teulu'n ddibynnol ar fudd-daliadau, lle mae rhieni mewn cyflogaeth incwm isel, lle nad oes ond un rhiant, neu os ydynt yn rhan o deulu mawr. Mae'r argyfwng economaidd byd-eang a newidiadau i system les y DU yn golygu bod nifer gynyddol o blant a phobl ifanc yn rhan o deuluoedd sy'n ei chael yn fwyfwy anodd ymdopi'n ariannol o ddydd i ddydd. Un canlyniad i'r sefyllfa hon yw tystiolaeth bod tlodi bwyd yn broblem sy'n wynebu nifer gynyddol o deuluoedd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Menter Fwyd Gydweithredol sy'n ceisio cynyddu mynediad i ffrwythau a llysiau ffres bob wythnos am brisiau cyfanwerthu. Mae dros 300 o Fentrau Bwyd Cydweithredol ledled Cymru ac mae ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, economaidd a gwledig yn flaenoriaeth. Mae Banciau Bwyd wedi nodi cynnydd enfawr yn y galw dros y 12 mis diwethaf a bellach mae 23 o Fanciau Bwyd yng Nghymru. Rhoddir bwyd gan y cyhoedd ac fe'i cesglir gan ysgolion, busnesau a thrwy fannau casglu mewn archfarchnadoedd. Mae gweithwyr proffesiynol y rheng flaen megis meddygon, ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol yn darparu talebau banc bwyd i bobl mewn argyfwng er mwyn eu cyfnewid am fwyd brys am dri diwrnod.

Mae gan lawer o blant yr hawl i gael prydau ysgol am ddim ond nid ydynt yn eu hawlio oherwydd maent yn ofni stigma a bwlio.[25] Mae'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn rhoi sylfaen ddeddfwriaethol i'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei weithredu trwy Blas am Oes, er mwyn gwella'r bwyd a'r diod a ddarperir mewn ysgolion. Daw rheoliadau o dan y Mesur i rym ym mis Medi 2013 a byddant yn cynnwys dyletswydd ar awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, sy'n darparu prydau ysgol neu laeth am ddim, i annog plant i fanteisio arnynt, a hefyd i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob disgybl a chanddo'r hawl i gael cinio ysgol am ddim a llaeth ysgol am ddim yn eu cael. Mae hefyd dyletswydd ar awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gymryd camau rhesymol i sicrhau nad oes modd i neb ac eithrio unigolyn awdurdodedig wybod a yw disgybl yn cael cinio ysgol neu laeth ysgol am ddim.

Mae gan nifer y plant a chanddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim effaith uniongyrchol ar gyfanswm y Grant Cynnal Refeniw sy'n daladwy i awdurdod lleol ac ar daliad y Grant Amddifadedd Disgyblion i ysgolion. Gall cael prydau ysgol am ddim hefyd arwain at blentyn yn cael yr hawl i gael nifer o fudd-daliadau eraill megis grant gwisg ysgol. Golyga'r system bresennol ar gyfer cadarnhau pwy sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim fod rhieni sy'n gweithio 16 awr (neu 24 awr i gyplau) yr wythnos yn colli eu hawl, waeth faint y maent yn ei ennill. Mae hyn yn peri pryder arbennig yng nghyd-destun Cymru gan fod dadansoddiad a gyhoeddwyd yn 2011 yn awgrymu bod hanner y plant mewn tlodi yng Nghymru yn perthyn i deuluoedd sy'n gweithio.[26] Bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol o fis Hydref 2013 yn golygu na fydd y meini prawf presennol ar gyfer cadarnhau pwy sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim bellach yn bodoli. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i ffordd arall o bennu pwy sy'n gymwys a fydd yn cyd-fynd â'r system Credyd Cynhwysol. Mae Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2012 yn cynnwys cynigion i alluogi trefniadau codi tâl hyblyg ar gyfer prydau ysgol. Gallai cymorth ychwanegol trwy gostau llai ar gyfer prydau ysgol wneud gwahaniaeth go iawn i deuluoedd a chanddynt incwm isel. Mae'r memorandwm eglurhaol yn nodi grwpiau penodol a allai elwa o fentrau o'r fath.

Cyflwynwyd rhaglen brecwast ysgol am ddim Llywodraeth Cymru oherwydd tystiolaeth gadarn o'i manteision maethol ac addysgol. O achos y sefyllfa economaidd sydd ohoni ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu trechu tlodi plant, mae'r penderfyniad i beidio â gweithredu disgresiwn lleol ymhellach trwy Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2012 yn ddadleuol pan nad yw ychydig o dan un rhan o dair o ysgolion ledled Cymru yn cynnig brecwast ysgol am ddim. Mae ymchwil yn y DU yn tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â faint o blant ysgol sy'n bwyta brecwast. Dengys arolygon ysgol fod 5% o ddisgyblion yn mynd heb frecwast a bod 10% dim ond yn bwyta bwyd a chanddo faeth isel megis creision neu siocled. Yn ogystal, gwelwyd bod peidio â bwyta brecwast yn llawer mwy cyffredin ymysg plant gordew a phlant o gefndiroedd mwy difreintiedig.[27] Felly mae gan y cynnig cyffredinol o frecwast ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi gwireddu hawliau plant i fod yn iach ac i gymryd rhan lawn mewn dysgu.

Dengys ymchwil yn ogystal y gallai rhieni ddod o dan bwysau arbennig yn ystod gwyliau'r ysgol oherwydd nad yw'r plant yn cael prydau ysgol am ddim.[28] Yn aml, y gyllideb fwyd yw'r unig ran hyblyg yng nghyllideb y teulu ac mae'n dioddef os oes costau annisgwyl.

**Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn cyflawni'r canlynol:**

— **Gweithio gyda Chomisiynwyr Plant eraill y DU i drafod pryderon â Llywodraeth y DU ynghylch effaith newidiadau diwygio lles ar les plant a phobl ifanc;**

>>>

— **Galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried anghenion plant a phobl ifanc mewn tlodi sy'n perthyn i deuluoedd sy'n gweithio yn ogystal â'r rhai mewn teuluoedd nad ydynt yn gweithio wrth nodi meini prawf newydd ar gyfer nodi pwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;**

— **Galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried tlodi bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol i deuluoedd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac i gynnwys mesurau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol.**

## Hyrwyddo arfer da – cymorth i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc dan anfantais oherwydd tlodi

**Bettws Cares, Banc Bwyd, Casnewydd**
Ymwelodd y Comisiynydd Plant â'r banc bwyd a ddarperir gan Eglwysi Betws mewn cydweithrediad â Chymunedau'n Gyntaf a Raven House Trust. Mae'r banc bwyd yn cefnogi teuluoedd mewn argyfwng ariannol yn y gymuned. Mae'r teuluoedd y maent yn eu cefnogi yn cynnwys mam sengl a chanddi 3 o blant bach sydd wedi'i hasesu'n ddiweddar yn ffit i weithio ac mae wedi colli'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Roedd hyn yn golygu bod ganddi £20 i fwydo ei theulu dros 3 wythnos tan fod y newidiadau yn ei budd-dal wedi'u gwneud. Roedd teulu arall a oedd yn cael cymorth yn cynnwys tad anabl a mam sy'n gweithio ar yr isafswm cyflog a chanddynt 2 o blant. Gan fod y fam yn gweithio llai na 24 awr yr wythnos, roedd y diwygiadau lles diweddar yn golygu bod y teulu yn colli'r hawl i gael credyd treth gwaith. Mae'r banc bwyd hefyd yn cyflenwi bwyd er mwyn darparu cinio i fyfyrwyr Chweched Dosbarth Amgen Betws i bobl ifanc rhwng 16-18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Gofynnodd gweithiwr ieuenctid Cymunedau'n Gyntaf am help oherwydd bod rhai o'r bobl ifanc yn aml yn cyrraedd y sesiynau'n llwglyd oherwydd prydau bwyd afreolaidd.

>>>



**Craigfelen Residents in Action a Chymunedau'n Gyntaf, Abertawe**
Sefydlwyd clwb cinio'r gwyliau yn neuadd gymunedol Craigfelen wedi i blentyn ddweud ei fod yn casáu gwyliau'r haf oherwydd roedd o hyd yn llwglyd. Mae plant a phobl ifanc yn cyfrannu at y clwb cinio, trwy dyfu eu cynnyrch eu hunain i'w werthu i'r clwb, cymryd rhan yn y coginio ac yna mwynhau cinio da. Mae'r clwb wedi bod yn ceisio cael rhieni i gymryd rhan a dywedwyd wrth y Comisiynydd Plant bod plant yn gweithio'n galed i gael eu rhieni i goginio ryseitiau o'r clwb cinio yn eu cartref.

Mae plant hefyd wedi bod yn arwain y ffordd o ran annog cynilo ac fe sefydlwyd Clwb Cynilwyr Iau Corynnod Craigfelen yn Ysgol Gynradd Craigfelen i helpu plant i ddechrau cynilo'n gynnar ac i osod sylfeini er mwyn iddynt fedru rheoli eu cyllid yn llwyddiannus yn y dyfodol a hefyd addysgu sgiliau rhifedd hanfodol iddynt. Dywedwyd wrth y Comisiynydd Plant am y ffordd y mae'r plant yn ymhyfrydu mewn bod yn rhan o'r cynllun a sut y gall wneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd y maent yn teimlo yn yr ystafell ddosbarth.

# Tri ymrwymiad allweddol Comisiynydd Plant Cymru ynghylch tlodi plant



1. Cyflawni'r holl gamau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Tlodi Plant hon a'u hadolygu'n flynyddol.

2. Parhau i hyrwyddo a thynnu sylw at ddull yn seiliedig ar hawliau o drechu tlodi plant yng Nghymru.

3. Targedu gwaith trwy weithredoedd megis y rhaglenni Llysgenhadon, y rhaglen See Me/Dyma Fi, a thrwy'r cynllun gwaith blynyddol ar gyfer mynd i'r afael â materion cydraddoldeb cymdeithasol-economaidd i blant a phobl ifanc.

## I gael rhagor o wybodaeth am enghreifftiau o arfer, cysylltwch â:

**Hilary Davies,**
**Arfer Adferol mewn Ysgolion, Abertawe**
hilary.davies@swansea.gov.uk
07919626611
Ysgol Gymunedol Townhill:
01792 516370

**Jonathan Gunter,**
**Ministry of Life, Caerdydd**
info@ministryoflife.co.uk

**James Hall,**
**Rheolwr Prosiect Ymchwil Weithredu,**
**yr Uned Pobl a Gwaith**
james.hall@peopleandworkunit.org.uk

**Denise Morgan, Pennaeth,**
**Ysgol Gynradd Goetre, Merthyr Tudful**
head@goetre-jun.merthyr.sch.uk
01685 351814

**Julie Morgan,**
**Swyddog Cymunedau'n Gyntaf,**
**Cymunedau'n Gyntaf Craigfelen, Abertawe**
julie@clydachtrust.org.uk
01792 845566

**Jenny O'Hara,**
**Cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf,**
**Partneriaeth Gymunedol Glyncoch, RCT**
jenny@glyncochcp.co.uk
01443 486496



**Joanna Owen, Cydlynydd Prosiect,**
**Llwybrau Porffor – darpariaeth chwarae**
joanna.owen@cavs.org.uk
01267 245566

**Amy Wakefield,**
**Uwch Gydlynydd, Cymunedau'n Gyntaf Felinfoel,**
**Glanymor, Tyisha a Phantyfynnon, Sir Gaerfyrddin**
awakefield@carmarthenshire.gov.uk
01554 777850
01554 784847

**Su West, Cydlynydd,**
**Cymunedau'n Gyntaf Adamsdown, Caerdydd**
su.west@peoplecan.org.uk
029 2046 0899

**Caren White, Cydlynydd Cymunedol,**
**Cymunedau'n Gyntaf Betws, Casnewydd**
caren.white@bettwsfirst.com
01633 856623

[1] J.Cribb et al (2012) *Living Standards, poverty and inequality in the UK:2012*, IFS Commentary C124, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Sefydliad Joseph Rowntree

[2] Llywodraeth Cymru, (2012) Adroddiad Blynyddol Rhaglen Lywodraethu, Mai 2012, Caerdydd:LLC

[3] Eurochild, (2011), *Child poverty – family poverty: are they one and the same? A rights-based approach to fighting child poverty*, Brussels: eurochild

[4] Llywodraeth Cymru, (2012) Cyflawniad Academaidd a'r hawl i brydau ysgol am ddim, Caerdydd: Ystadegau Llywodraeth Cymru i Gymru

[5] Estyn, (2012) *Adroddiad Blynyddol 2010-2011*, Caerdydd: Estyn

[6] H Meltzer et al *The Mental Health of Children and Adolescents in Great Britain*, The Stationery Office, 2000

[7] Contact a family, (2012) *Counting the Costs 2012, The financial reality for families with disabled children across the UK*, Contact a family for families with disabled children

[8] Smith,R et al, (2007) *Poverty and disadvantage among prisoners' families*, York: Sefydliad Joseph Rowntree

[9] See Brown,K., (2001).*No-one's ever asked me: young people with a prisoner in the family*, London: APF also Action for Prisoners' Families, (2003) *Exploring the needs of young people with a prisoner in the family*, London: APF also Action for Prisoners' Families, (2001) *I didn't think anyone would understand miss: Supporting prisoners' children in school*, London: AFP

[10] National Institute for Health and Clinical Excellence, (2009) *Promoting young people's social and emotional wellbeing in secondary education*, London: NICE

[11] Llywodraeth Cymru, *Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb: Cynllun Gweithredu Strategol Lleihau Annhegwch ym Maes Iechyd, Ein Dyfodol Iach – Papur Technegol 2*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru

[12] http://www.guardian.co.uk/healthcare-network/2011/jun/08/nhs-viral-videos-online-public-health

[13] Chwarae Cymru, (2012) *Chwarae: iechyd a lles*, Caerdydd: Chwarae Cymru, L.Barnett, 'Developmental benefits of play for children', Journal of Leisure Research, Vol 22(2), 1990, 138-153

[14] *Child Play Council Best Play Practice* http://www.mapalim.com/Playwork%20eLearning%20website/files/Understanding%20Play%20depriv.doc



[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, (2010) *Darparu mannau diogel i chwarae a chymdeithasu*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Ridge,T. (2009), *Byw gyda Thlodi, Adolygiad o'r llenyddiaeth am brofiadau plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, Yr Adran Gwaith a Phensiynau*, Adroddiad Ymchwil Rhif 594; Butler,V. (2005) *Research Report of Phase One of the Generation 2020 Project*, Caerdydd: Barnardo's Cymru.

[16] Lester,S and W. Russel (2008) *Play for a Change: Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*, London: Play England; Griggs,J. and Walker,R (2008) *The costs of child poverty for individuals and society: A literature review*, York: JRF; Butler,V. (2005) *Research Report of Phase One of the Generation 2020 Project*, Cardiff: Barnardo's Cymru.

[17] Chwaraeon Cymru (2011) *Arolwg ar Chwaraeon Ysgol*, Caerdydd: Chwaraeon Cymru Wales

[18] Department for Education (2011) *Evaluation of find your talent - overview report*, London: DfE

[19] Estyn (2011) *Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill*, Caerdydd: Estyn

[20] P. Wright et al, (2006) *The participation of children and young people in developing social care*, SCIE: Participation Practice Guide 11

[21] Gweler 20 uchod.

[22] S.Cemlyn et al, (2009) *Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review*, Equality and Human rights Commission, Research report 12

[23] Ystadegau Cymru, (100/2012) Digartrefedd, mis Ionawr i fis Mawrth 2012, Caerdydd: Llywodraeth Cymru

[24] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, (2010) *Darparu mannau diogel i chwarae a chymdeithasu*, Caerdydd: Llywodraeth y Cynulliad

[25] Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, (2012) *Mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion*, Caerdydd: Plant yng Nghymru

[26] A.Parehk and P.Kenway, (2011) *Monitoring poverty and social exclusion in Wales 2011*, York: JRF

[27] S. Murphy, (2011) *Free School Breakfast Initiative Data Augmentation and Analysis*, Cardiff

[28] J.Harris et l, (2009) Below the breadline: *A year in the life of families in poverty*, Barkingside: Barnardo's Gill, O. and Sharma, N., (2004) *Food poverty in the school holidays*, Barkingside:Barnardo's,

0808 801 1000 / 80800*
post@complantcymru.org.uk

@complantcymru
www.complantcymru.org.uk

Ysgrifennwch :
**Comisiynydd Plant Cymru**
**Rhadbost RRGL XLYC BHGC**
**Abertawe SA7 9FS**

*Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)

www.complantcymru.org.uk
www.childcomwales.org.uk